**CYNGOR CYMDEITHAS**
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**COMMUNITY COUNCIL**

**29.10.20**
**7 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod ZOOM*
## *NODIADAU*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br>Presennol: JAJ (Cadeirydd); DW;GW;TAJ; DL; JOJ<br>Ymddiheuriadau: RJ; DP; EO; IW; AR;BJ<br>Mynychu: SWR Cyng Llinos Medi |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br>Datganodd LlMH a JAJ diddordeb mewn unrhyw drafodaeth am gais cynllunio Ty'n Ffynnon |
| **3** | **Cofnodion 30.9.20**<br>a) Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 29 Medi 2020 fel rhai cywir (TAJ/DAW) yn dilyn cywiro Tud 2 Eitem 5 – Peniel *i ddarllen* Pendref.<br>b) Materion yn codi<br>➢ **Sul y Cofio**<br>Adroddodd y Cadeirydd bod cynnal gwasanaeth Sul y Cofio yn eithriedig o gyfyngiadau'r cyfnod clo presennol. Cytunwyd i:-<br>• Gofyn i Parch K Ellis arwain<br>• Gofyn i'r Heddlu gau'r ffordd fawr<br>• Cadeirydd; Is-Gadeirydd; DL; Lligwy Davies; plant o'r Ysgol a Geraint Williams yn unig i fynychu<br>• GW i ffilmio ar gyfer llif byw ar dudalen gweplyfr Lluniau Llan<br>• DAW i gysylltu â Geraint Williams; Clerc i gysylltu â'r Heddlu, Parch Ellis a Phennaeth yr Ysgol |


Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | ➢ **Cerbyd ar Safle'r Stesion**<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi sicrhau cytundeb gyda pherchennog y cerbyd ar yr un telerau a pherchennog y garafán - gyda thaliad o £10 y mis. Nodwyd bod y ddau berchennog am drafod parcio eu cerbydau. Adroddwyd bod y cerbyd gwyrdd bellach wedi ei symud.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn 29.10.20 |
| **4** | **Rheolaeth**<br>➢ **Sedd Wag**<br>Nododd y Clerc nad oedd CSYM wedi derbyn unrhyw enw ar gyfer y sedd wag o fewn y dyddiad. Byddant yn symud i'r drefn Cyfethol. Bydd hysbyseb ar wefan y Cyngor a'r hysbysfwrdd gyda dyddiad cau 18 Tachwedd 2020. Ymlaen i'r cyfarfod nesaf. |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br>**GW -** baw ar Lon Bacha a brigau ar y ffyrdd yn dilyn torri gwrychoedd - Clerc gysylltu â CSYM<br>- Coeden Nadolig eleni – cytunwyd i GW fwrw mlaen a'r trefniadau arferol<br>- Awgrymodd anfon llythyr at staff y Siop i ddiolch iddynt am eu gwaith caled i gadw'r gwasanaethau i fynd yn ystod y cyfnodau clo. Penderfynwyd i'r Clerc greu 'llythyr agored' i'w osod ar yr hysbysfwrdd a'r wefan i ddiolch i bawb - meddygfa; ysgol; siopau; gwirfoddolwyr am eu cymorth diflino dros gyfnod anodd.<br><br>**JOJ -** cyfeiriodd at arwydd stryd Sgwâr y Farchnad a'r pryder fod yr arwydd yn agored i gael ei fandaleiddio yn ei safle presennol - Clerc i gysylltu â CSYM i holi am ei ail-osod ger y safle bws.<br><br>**JAJ -** tyllau yn y ffordd o Eglwys Ceidio tuag at Fferm Ceidio wedi gwaethygu ers y gwaith clytio - Clerc i gysylltu â CSYM<br>- holodd am sefyllfa weindio'r Cloc. Cytunodd GW i weithredu.<br>- Nododd bod cewyll i'r biniau yn Glan Menai wedi cyrraedd ac ar gael yn Bryn Difyr pan fo angen.<br><br>**LLMH** - adroddodd bod gwaith y Cyngor Sir yn mynd rhagddo, gyda llawer o'r cyfarfodydd yn rhai rhithiol. Nododd bod y sefyllfa yn parhau i greu pryder ac yn ddyrys iawn yn arbennig lle bo Addysg a Gwasanaethau Gofal mewn cwestiwn. Dywedodd bod staff CSYM yn |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | gweithio'n eithriadol o galed dan bwysau mawr a bod hyn yn her i gynnal a chadw'r gweithlu yn iach a diogel.<br><br>Diolchwyd i LLMH am ei gwaith da acam gyfleu negeseuon allweddol am COVID 19 ar y cyfryngau mor huawdl. Gofynnwyd iddi anfon diolchiadau'r Cyngor Cymdeithas at holl staff y Cyngor am eu gwaith dan amgylchiadau anodd.<br><br>Nodwyd bod oddeutu £1.5K wedi deillio o Gystadleuath Golff Llan ar gyfer Cronfa'r Ysgol Gynradd.  Diolchwyd i'r trefnwyr am eu gwaith. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Gwariant ers cyfarfod Medi:**<br><br>➢ Dragon Fire – archwiliad cyfarpar diogelwch tan   £171.36<br>➢ HJT Electricals – trwsio golau yn nhoiledau dynion y Caffi £108.62<br>➢ Cewyll Biniau newydd i safle chwarae Glan Menai - £48.70<br><br>**Biliau cyfredol:**<br><br>➢ Trefor Rowlands – cynnal a chadw waliau'r fynwent gyhoeddus - £350<br><br>Cafwyd diweddariad gan y Clerc am y sefyllfa ariannol. |
| **7** | **Unrhyw Fater Brys Arall**<br><br>➢ **Menter Grŵp LlanNi**<br><br>Trafodwyd diweddariad gan yr uchod ar ei weithgaredd hyd yma. Cytunwyd mewn egwyddor i'w cais i osod Hwb Cymunedol (Men's Shed) ar safle'r Stesion ond y dylid cael mwy o wybodaeth gan y Grŵp cyn symud ymlaen.  Clerc i gysylltu â Grŵp LlanNi i drefnu cyfarfod.<br><br>➢ **Materion Cynllunio**<br><br>Cais Gamfa Coed Llandrygan – FPL/2020/188<br><br>*Dim gwrthwynebiad*<br><br>Cais Bryn Gollen Newydd –FPL/ 2020/189<br><br>Cytunwyd yn unfrydol i anfon y sylwad isod:-<br><br>*'Mae'r Cyngor yn cadarnhau ei sylwad gwreiddiol sef cefnogi'r cais.* |


Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn  LL71 8EG** Ffôn:  01248  470383

| | |
|---|---|
| | *Er hynny, mae yn siomedig nad yw'r datblygwr wedi glynu wrth yr amodau / gwelliannau a gytunwyd yn y cais gwreiddiol ac yn bryderus y gallasai hyn osod cynsail i'r dyfodol i ni fel Cyngor Cymdeithas wrth ystyried ceisiadau cynllunio. '*<br><br>Cais Tyddyn Coedana – DAG/2020/20<br><br>Cylchredwyd y cais hwn ar gyfer codi sied trwy e-bost at yr aelodau. Yn dilyn ymatebion o fewn y terfyn amser cyflwynwyd y sylwad isod ar ran y Cyngor.<br><br>*'Dim gwrthwynebiad. Efallai, o ystyried maint y sied, y gellir ystyried ei guddweddu er mwyn amddiffyn yr olygfa o ffordd Bachau tuag at yr arfordir e.e. trwy blannu coed.'*<br><br>➢ **Awel y Môr - fferm wynt RWE**<br><br>Clerc i anfon y manylion at yr aelodau a thrafod yng nghyfarfod mis Tachwedd**.** |


Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383